

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL**

**Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambur y Cyngor)**

FORE IAU 24^{AIN} MEDI, 2015 am 10.30AM.

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Tel No. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 22ain Medi 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1 DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2 AD-DREFNU YSGOLION CYNRADD, YSGOLION UWCHRADD A DARPARIAETH CHWECHED DOSBARTH YNG NGHWM RHONDDA A THONYREFAIL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am benderfyniadau Gweinidogion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r cynigion statudol i ad-drefnu ysgolion yn ardaloedd Cwm Rhondda a Thonyrefail, Rhondda Cynon Taf.

Tudalennau 1–64

3 CANLYNIADAU CYFNOD SYLFAEN, CYFNODAU ALLWEDDOL 2 A 3 A CHANLYNIADAU DROS DRO CYFNOD ALLWEDDOL 4 AR GYFER 2014

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi adborth cychwynnol i'r Aelodau ynglŷn â chanlyniadau Cyfnod Sylfaen, Cyfnodau Allweddol 2, 3, a 4 ar gyfer 2015.

Tudalennau 65- 72

4 ADOLYGIAD O WASANAETH Y CRWNER

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol sy'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Cynghorwyr o ran y cynnydd am uno ardaloedd crwner Powys, Pen-y-bont ar Ogwr a Chymoedd Morgannwg ag ardaloedd crwner Caerdydd a Bro Morgannwg, fel cytunodd y Cyngor ar 26^{ain} Chwefror 2014.

Tudalennau 73 - 108

5 CRONFA GYMDEITHASOL EWROP - CYMUNEDAU AM WAITH LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER CYNNAL CYFLOGAETH YN RHONDDA CYNON TAF.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am raglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru sy'n rhoi cymorth i bobl fanteisio ar gyflogaeth a'r cyfle i roi gwerth ychwanegol i'r ddarpariaeth bresennol drwy fod yn rhan o raglen Cymunedau am Waith Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

Tudalennau 109- 118

6 GWEITHDREFNAU CWYNION A SYLWADAU - ADRODDIAD BLYNYDDOL

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi crynodeb o'r trefnau gweithredu ac effeithiolrwydd Gweithdrefn Cwynion Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol y Cyngor rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015, ynghyd â data cyflawniad Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant.

Tudalennau 119 - 136

7 YMRWYMIAD Y CYNGOR I GYNLLUN ADLEOLI POBL FREGUS SYRIA A CHYNLLUN ADLEOLI CYFIEITHWYR O AFFGANISTAN.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am y ddau gynllun uchod, ynghyd â chais iddyn nhw eu cymeradwyo yn ogystal â'u gweithredu.

Tudalennau 137 - 140

8 AMNEWID Y CYFARPAR AMLOSGI YN AMLOSGFA GLYN-TAF.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n gofyn am ganiatad y Cynghorwyr i ddechrau ar y broses o amnewid y cyfarpar amlosgi yn Amlosgfa Glyn-taf ynghyd â gosod cyfarpar lleihau mercwri.

Tudalennau 141 - 144

9 Lleodd Parcio Unigol i'r Anabl.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am y gwaith o adolygu'r polisi presennol a'r broses ar gyfer delio â lleodd parcio i'r anabl a chyflwyno cynigion o ran darpariaeth yn y dyfodol.

Tudalennau 145- 152

10 ADRODDIAD AR GYFLAWNIAD Y CYNGOR

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Rheng-Flaen sy'n rhoi crynodeb i'r Cynghorwyr am gyflawniad y Cyngor dros dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol hon, yn ariannol a gweithredol fel ei gilydd.

Tudalennau 153- 274

11 GWEITHREDU'R CYFLOG BYW

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol sy'n rhoi manylion i'r Cynghorwyr ar sut byddai modd gweithredu'r Cyflog Byw yn dilyn ymrwymiad yr Arweinydd i adolygu ei gyflwyno yn swyddogol.

Tudalennau 275 - 282

12 MATERION BRYS

Ystyried unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

